Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

## HYSBYSIAD CYDYMFFURFIO – ADRAN 44 MESUR Y GYMRAEG (CYMRU) 2011

### Y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig – Dyddiad Dyroddi: 30/09/2016

Mae adran 67 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn darparu nad awdurdodir y Comisiynydd i'w gwneud hi'n ofynnol i gorff gydymffurfio â safon os yw'r safon honno, ac i'r graddau y mae'r safon honno, yn ymwneud â darlledu. Fodd bynnag, nid yw darlledu yn cynnwys unrhyw weithgaredd a gyflawnir mewn cysylltiad â darlledu.

Yn sgil goblygiadau adran 67 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, 'Eithrio Darlledu', ystyrir bod safonau cyflenwi gwasanaeth yr hysbysiad cydymffurfio hwn yn berthnasol i:

- **Gwasanaethau Cynulleidfa** – sy'n golygu darparu gwasanaethau cwsmer gan y BBC mewn ymateb i adborth ac ymatebion a dderbynnir gan ei gynulleidfaoedd ar ei llwyfannau;
- **Gwasanaethau Corfforaethol** – sy'n golygu darparu gwybodaeth a gwasanaethau eraill i'r cyhoedd fel rhan o swyddogaethau ymgynghori, polisi, strategaeth, Adnoddau Dynol, eiddo a chyllid BBC Cymru nad sy'n ymwneud yn uniongyrchol â rhaglenni;
- **Trwyddedu Teledu** – sy'n golygu gweinyddiaeth a gorfodaeth Ffî'r Drwydded deledu gan y BBC a'i hasiantau.

**Nid yw'r datganiad hwn yn berthnasol i safon 53 gan fod y gofyniad i gydymffurfio â'r safon honno eisoes wedi ei chyfyngu i amgylchiadau penodol o fewn cymhwysedd adran 67 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.**

